



Enghraifft: Teithio Cam 1

Asesu mewn grŵp o 3 – 5 hyfforddai

Tasg Lafar: Holi ac ateb cwestiynau cyffredinol, yna holi am y thema:

e.e. Ydych chi'n mwynhau teithio ar/mewn... Ble ydych chi'n mynd/gyda phwy/pryd...?

Gêm grŵp: cardiau'n dangos lluniau o'r canlynol a geirfa i helpu'r unigolyn:

car, bws, trê, awyren, canŵ, cwch, fferi, llong, llong ofod...

Mae pawb yn cael un cerdyn a'i guddio rhag aelodau eraill y grŵp. Wedi darllen y cynnwys, bydd un hyfforddai yn llunio brawddeg i gyflwyno'r wybodaeth (ond heb enw'r gwrthrych.) Bydd cyfle i aelodau'r grŵp holi cwestiynau pellach cyn i'r person ar ochr dde'r hyfforddai cyntaf ddyfalu pa lun sydd ar y cerdyn. Os yw'n gywir mae'n ennill y cerdyn a mynd ati i ddisgrifio'r llun sydd ganddo/i. Os yw'n anghywir mae'r person nesaf i'r dde yn dyfalu ac os yw'n gywir mae'n ennill y cerdyn a disgrifio'r 'drafnidiaeth' sydd ar ei g/cherdyn. Yr enillydd yw'r un sy'n casglu'r nifer fwyaf o gardiau.

Mae hon yn dasg sy'n cyplysu LLAFAR a DARLLEN:

e.e




Bws Coch

*Ble? Yn y ddinas.
Sut mae'n edrych? Yn fawr,
pedair olwyn a grisiau
Faint o deithwyr? Tua 50*



Cwch fferi

*Ble? Ar y môr
Sut mae'n edrych?
Anferth, ceir ar y dec isaf
Faint o deithwyr? Tua 2,500*



Canŵ

*Ble? Ar y dŵr
Sut mae'n edrych?
Yn fach, ysgafn, rhwyf i'w symud
Faint o deithwyr? Un neu ddau*

Tasg ysgrifennu: Gwaith pâr:
Creu deialog syml. Bydd y
deialogau'n cael eu darllen i'r
grŵp.

Deialog : Yn y Maes Awyr!

- A. P'nawn da, oes tocynnau gyda chi?
- B. Oes. Dyma'r tocyn.
- A. Ble mae eich pasbort?...

Cwestiynau i'ch helpu:

I ble ydych chi'n teithio?

Gyda phwy? Beth ydy rhif y sêd?

Ble mae eich cêd? Ydy o / e'n drwm/ysgafn?

Faint mae'n bwysu?

Oes gyda chi...? Ydych chi'n cario ...?



Enghraifft: Teithio Cam 2

Asesu mewn grŵp o 3-4, bob yn bâr ac yn unigol

Tasg Lafar: Wedi'r drafodaeth gychwynnol, trafod profiadau teithio yn y gorffennol:

*Ble ydych chi wedi teithio? Ydych chi wedi bod yn: Iwerddon, Yr Alban, dramor? Ble est ti?
Beth wnest ti yno? Sut est ti? Faint oedd y siwrne? Am faint oeddech chi'n aros?
Ble oeddech chi'n aros? Sut oedd y tywydd yn?*

Tasg Ddarllen / Llafar: *Bydd pob hyfforddai'n cael taflen i'w darllen a'i chwblhau,
yna bydd pawb yn darllen eu taflenni ar goedd i weddill y grŵp.*

Gall y disgrifiad fod yn un gwir neu'n ddychmygol.

e.e.

Roeddwn i'n teithio i _____ yr wythnos diwethaf, ar fy
ngwyliau. Roeddwn i'n teithio gyda _____ ac yn aros am
_____. Yn fy nghê, roeddwn i wedi
pacio _____.

Aethon ni i'r _____ am _____ o'r gloch ac roedden ni'n
_____ am _____.

Cymrodd y siwrne _____. Pan gyrhaeddwn
ni, _____
_____.

Roedd y tywydd yn _____, roeddwn i angen
_____. Daethon ni nôl _____.

Tasg Ysgrifennu: Gwaith pâr, gwirio'r rhestr a chreu bras
nodiadau. Trafod, mynegi barn a dod i benderfyniadau:

Teithio mewn car: Rhaid cael 'sat nav' i yrru car yn
effeithiol ar siwrnai bell. *Cytuno / Anghytuno. Pam?*

Teithio ar awyren: Dylech chi gymryd tabledi teithio cyn
hedfan. *Cytuno / Anghytuno. Pam?*

Teithio ar gwch fferi: Mae angen i chi wisgo siaced
ddiogelwch drwy'r siwrnai. *Cytuno / Anghytuno. Pam?*

Teithio ar feic: Rhaid gwisgo helmed diogelwch bob amser.
Cytuno/Anghytuno. Pam?

Teithio ar fws: Does dim rhaid prynu tocyn i gael teithio ar
y bws. *Cytuno / Anghytuno. Pam?*

Teithio ar drên: Mae'n well cael tocyn tymor i deithio ar y
trên. *Cytuno/Anghytuno. Pam?*

Teithio mewn canŵ: Mae'n bwysig iawn gwisgo côf
gynnes ar y dŵr. *Cytuno/Anghytuno Pam?*

*Bydd y grŵp yn trafod eu casgliadau ar ddiwedd y sesiwn ac yn
gallu dadlau ac ychwanegu pwyntiau neu resymau pellach am deithio.*



Enghraifft: **Teithio a Gwyliau Cam 3**

Asesu bob yn bâr ac yn unigol

Tasg Lafar: Trafodaeth am fanylion personol, yn arwain at drafod agweddau

ar deithio. e.e. *Sut deithioch/deithiest i'r coleg heddiw? Gyda phwy?*

Fel arfer fyddwch chi'n teithio...faint o weithiau fyddwch chi'n teithio i...?

Pa mor aml fyddwch chi'n defnyddio tacsï/trên/bws? Pan fyddwch yn

mynd ar wyliau, sut byddwch chi'n teithio? Ydych chi'n hoffi hedfan...?

I ble byddech chi'n dewis mynd ar wyliau arbennig pe baech chi'n ennill y loteri?

Tasg Ddarllen sy'n arwain at dasg ysgrifennu:

Erthygl yn disgrifio taith a thasg i hyfforddeion ysgrifennu cwestiynau am y cynnwys.

Bydd yr atebion yn arwain at drafodaeth ar ddiwedd y cyfweiliad.

Tasg Ysgrifennu:

Lluniwch **bum cwestiwn** am *Tasmania*, fydd yn arwain at drafodaeth fywiog ar ddiwedd y sesiwn.

Nodwch **bum gair** newydd ddarllenoch chi yn yr erthygl. Ceisiwch eu cofio ar gyfer y drafodaeth.

TASMANIA.

Ynys o *ddyffrynnoedd ffrwythlon*, trefi a phentrefi bach tawel ar arfordir perffaith ydy Tasmania. Mae'r aer yn lân a ffres – yr aer glanaf yn y byd medden nhw. Gallwch nofio, deifio a syrffio o Ynys Flinders, neu Ynys Y Brenin ac ar afon a Llyn Franklin, mae modd hwylio a rhwyfo. Cewch ddringo'r creigiau ac mae'r Parciau Cenedlaethol yn cynnig golygfeydd anhygoel.

Mae modd cerdded ar Fynydd Cradle ym Mharc Cenedlaethol Llyn St Clair ac mewn ugain munud, gallwch fynd o lan yr afon i'r fforestydd glaw. Mewn chwe diwrnod, gallwch gerdded y pedwar deg milltir sy'n cylchu'r llwybrau a dringo i gopa'r mynydd uchaf ar yr ynys; peidiwch â chael gormod o fraw os welwch chi walabi, baun neu blatapws ar eich taith! Mae traeth Bae Wine Glass yn un o'r deg traeth harddaf yn y byd.

Cewch groeso yn Hobart, hi ydy'r ddinas hynaf ond un yn Awstralia; mae digon o lefydd gwych i fwyta yno ac mae'n gartrefol iawn, gan nad yw'n ddinas fawr.

Maent yn tyfu grawnwin a *chynhyrchu* gwinoedd da ar yr ynys hefyd. Mae hanes Tasmania yn ddiddorol a llawer o adeiladau yn dyddio nôl at gyfnod pan roedd Prydain a gwledydd eraill yn anfon *troseddwy*r i weithio a byw yno. Buont yn adeiladu pontydd ac adeiladau eraill dros y blynyddoedd hynny. Mae Tasmania yn ynys ardderchog am wyliau y dyddiau hyn.

ddyffrynnoedd ffrwythlon: fruitful valleys

paun: peacock

cynhyrchu: to produce

troseddwy: convicts